Y nyrs oedd yn gofalu am y gelyn

(gofalu / dewrder / ffyddlondeb / helpu eraill)

Drwy'r pnawn roedd Edith wedi bod yn chwarae efo'i ffrindiau yng ngardd y ficerdy. Yr un peth oedd y genethod yn chwarae bob pnawn – chwarae ysbyty. Edith fyddai'r nyrs bob tro a'r plant eraill fyddai'r cleifion. Am oriau byddai rhai o'r genethod yn gorfod gorwedd ar lawr yr ardd yn cael trin eu clwyfau. Doedd wiw symud gewyn neu fe fyddai Nyrs Cavell yn gweiddi'n groch. Byddai rhai o'r genethod yn falch pan fyddai tad Edith yn galw i ddweud ei bod yn amser te ac yn amser iddo ef fynd i'r gwasanaeth Gosber yn yr eglwys.

Un noson ar ôl i'w thad fynd i'r gwasanaeth, a hithau a'i mam yn eistedd o gwmpas y bwrdd meddai, "Pan fydda i wedi tyfu mi ydw i am wneud rhywbeth gwerth chweil. Mi ydw i am helpu pobl sydd ddim yn gallu helpu eu hunain. Mi fuaswn i wrth fy modd bod yn nyrs mewn ysbyty."

"Wel," meddai'i mam wrthi, "bydd raid i ti weithio'n galed iawn."

Yn y cyfnod hwnnw roedd bywyd nyrs yn wahanol iawn i fywyd nyrs yn ein dyddiau ni. Roedd yn rhaid gweithio am oriau meithion a'r cyflog yn wael. Ond doedd dim troi arni. Dechreuodd hyfforddi i fod yn nyrs ac yn ystod ei chyfnod dan hyfforddiant torrodd y Rhyfel Mawr. Gofynnwyd iddi ofalu am ysbyty ym Mrwsel ac yn fuan wedi hynny daeth milwyr yr Almaen i mewn i'r ddinas honno.

Bu brwydro ffyrnig ym mrwydr y Mons. Gwrthododd Edith symud oddi yno. "Yma mae'n rhaid i mi fod yn trin clwyfau'r milwyr," meddai. Ac yno yr arhosodd. Un diwrnod daeth tri o ddynion i mewn i'r ysbyty yn eu dillad eu hunain.

Milwyr o Brydain oedden nhw. Roedd milwyr yr Almaen ar ei gwarthaf. Gwyddai Edith fod yn rhaid iddi wneud ei gorau i amddiffyn y tri. Gwyddai hefyd pa mor beryglus oedd hi i guddio milwyr. Ond allai hi wneud dim arall ond ceisio'u helpu. Bob dydd byddai'n trin eu clwyfau, yn rhoi digon o fwyd iddyn nhw ac yna'n eu hanfon i'r ystafell dywyll ym mhen draw'r ysbyty. Yn yr ysbyty hefyd roedd milwyr o'r Almaen. Felly yn ystod y dydd byddai Edith yn gweini ar y milwyr Almaenig ac yn ystod oriau'r nos byddai'n mynd i'r ystafell dywyll ym mhen draw'r ysbyty i weini ar y milwyr Prydeinig.

Un bore, ar ei ffordd i'w gwaith, gwelodd Edith boster anferth oedd yn rhybuddio'r bobl i beidio helpu milwyr y gelyn. Y gosb fyddai marwolaeth. Ond doedd dim yn mynd i stopio Edith a'r nyrsys eraill. Am ddau o'r gloch un pnawn rhuthrodd tri o filwyr Almaenig i mewn i'r ysbyty. Yno, yn y ward y pnawn hwnnw, roedd milwr o Brydain.

Neidiodd i mewn i wely gwag yn ei ddillad a'i esgidiau trymion. Cuddiodd o dan y dillad. Pan ddechreuodd y milwyr chwilio a chwalu drwy'r ward rhybuddiodd Edith hwy fod un o'r milwyr yn wael iawn ac ar fin marw. Gwrandawodd y milwyr arni ac ymlaen â nhw i ran arall o'r adeilad. Roedd si ar led fod Edith a'r nyrsys eraill yn gwarchod milwyr y gelyn.

Byddai milwyr Almaenig yn troi i mewn unrhyw adeg o'r dydd. Un diwrnod daeth 'milwr' yn ei ddillad ei hun i mewn i'r adeilad. Gwyddai Edith ar ei hunion mai milwr Almaenig ydoedd. Dywedodd un o'r nyrsys eraill mai ysbïwr oedd. Roedd hi'n berffaith iawn. Arhosodd yn yr ysbyty drwy'r dydd. Roedd wedi ei anafu meddai ef. Ond doedd hynny ddim yn wir. Roedd â'i lygaid ymhob man.

Fel roedd hi'n dechrau nosi cerddodd allan o'r ysbyty dim ond i ddod yn ôl ymhen rhai oriau gyda dau ddwsin o filwyr arfog. Y noson honno daliwyd tri o filwyr Prydeinig. Gwyddai Edith fod ei hamser hithau ar ben! Cododd un o'r milwyr ei wn a'i anelu at Edith. Clywodd un o'r nyrsys hi'n dweud. "Rhaid imi beidio â dangos unrhyw chwerwder tuag at neb." Syrthiodd Edith yn gorff i'r llawr.

Adnod: "A allodd hi, fe'i gwnaeth." Marc 14:8

Gweddi: Gwna fi, O Dduw, yn berson dewr. Amen.

Trafod:

- Ydych chi'n credu fod Edith yn gwneud y peth iawn yn gwarchod y milwyr Prydeinig?
- Ceisiwch ddisgrifio bywyd nyrs yng nghyfnod y Rhyfel Mawr a hynny mewn gwlad ddieithr.